Fferm Wynt Alltraeth

AWEL Y MÔR

Offshore Wind Farm

# Ymgynghoriad Cyhoeddus




0800 197 8232 awelymor@rwe.com www.awelymor.cymru

# Pwy ydyn ni?

Fferm wynt arfaethedig ar y môr oddi ar arfordir gogledd Cymru yw Awel y Môr. Mae RWE Renewables yn falch o arwain y datblygiad hwn ar ran buddsoddwyr y prosiect a'r partneriaid Stadtwerke München  Siemens Financial Services ac RWE.

Rydym ni wedi mireinio ein cynigion mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyntaf a gynhaliwyd ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2020, ac rydym ni'n eu cyflwyno yma. Rydym ni'n croesawu eich adborth.

Prosiectau ynni gwynt ar y môr, fel Awel y Môr yw un o'r mathau glanaf a rhataf o gynhyrchu ynni, ac mae ganddyn nhw ran allweddol i'w chwarae yn y gwaith o leihau allyriadau carbon, creu cyfleoedd swyddi a helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau ynni adnewyddadwy.



# Pwrpas yr arddangosfahon yw:

**• Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gynlluniau ein prosiect (gan gynnwys sut mae ein hymgynghoriad yn niwedd 2020 wedi llywio ein cynlluniau hyd yma)**

**• Gwahodd eich adborth ar ein cynlluniau diweddaraf ar gyfer y prosiect, gan gynnwys::**

- **Seilwaith a llwybr ceblau ar y môr:**
  - Aráe Ar y Môr
  - Coridor Cebl Allforio Ar y Môr
  - Effeithiau amgylcheddol ar y môr rydyn ni'n eu rhagweld a'r mesurau lliniaru
- **Seilwaith a llwybr ceblau ar y tir**
  - Ardal waith y lanfa
  - Coridor Cebl Allforio ar y Tir
  - Compowndiau Adeiladu Dros Dro
  - Mynediadau a pharth is-orsaf
  - Effeithiau amgylcheddol a ragwelir ar y tir a mesurau lliniaru
- **Y prosiect yn gyffredinol**

Diolch yn fawr am roi adborth yn ystod ein hymgynghoriad cyhoeddus diwethaf yn niwedd 2020. Rydym ni'n eich gwahodd i lenwi ein holiadur newydd, er mwyn i chi allu rhannu eich safbwyntiau ar ein cynigion yn ystod cyfnod datblygu'r prosiect. Gallai eich sylwadau helpu i lywio'r hyn rydym ni'n ei wneud a helpu i sicrhau'r canlyniad gorau i'r ardal.

Rydym ni'n gobeithio y byddwch chi'n mwynhau'r arddangosfa hon, ac edrychwn ymlaen at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein cynlluniau wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Cliciwch **YMA** i gofrestru i gael diweddariadau rheolaidd gan y tîm

**Tîm Prosiect Awel y Môr**


# Gwyboda eth am Awel y Môr

## fferm wynt ar y môr


Mae Fferm Wynt Ar y Môr, Awel y Môr wrth ymyl Fferm Wynt ar y Môr weithredol Gwynt y Môr, sydd oddi ar arfordir Gogledd Cymru ym Môr Iwerddon. Mae'r prosiect yn dal i gael ei ddatblygu ac mae'r gwaith dylunio'n mynd rhagddo. Rydyn ni wedi mireinio ein cynlluniau yn dilyn nifer o arolygon ac astudiaethau ac yn unol â'r adborth o'n hymgynghoriad yn 2020 a'n harbenigwyr technegol. Mae modd gweld y cynigion yn ein Hadroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR) **yma.**

Mae'r prosiect arfaethedig Fferm Wynt ar y Môr, Awel y Môr yn gyfle unwaith mewn degawd i Gymru, fel yr unig brosiect gwynt ar y môr ar raddfa fasnachol a fydd yn cael ei gyflawni yn ystod y 2020au. Ar hyn o bryd, y prosiect hwn fydd y buddsoddiad ynni adnewyddadwy mwyaf yng Nghymru yn y degawd nesaf ac mae'n hollbwysig fod Cymru'n chwarae rhan yn nhwf ynni gwynt ar y môr yn y DU, yn ogystal â chyflawni ei thargedau ei hun o ran ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio.

# Ardal aráe flaenorol ar y môr



# Ardal aráe lai
# ar y môr (88km²),
## iyn unol â gwaith arolygu ac adborth.



# Crynodeb o'r safle arfaethedig

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | 10.6km oddi ar arfordir Cymru ym Môr Iwerddon i'r Gorllewin o Fferm Wynt bresennol Gwynt y Môr |
| **Uchafswm ardal yr estyniad:** | 88km² |
| **Uchafswm nifer y tyrbinau:** | Hyd at 91 (mae hyn yn dibynnu ar faint y tyrbinau. Y talaf yw'r tyrbinau, y lleiaf fydd eu hangen.) |
| **Cynhwysedd gosodedig:** | Hyd at gyfanswm o 1,100MW o ynni adnewyddadwy glân |
| **Nifer cyfwerth o gartrefi sy'n cael eu pweru:** | Up to approximately 900,000 average UK homes |
| **Uchder y tyrbinau:** | Hyd at uchafswm o 332m at flaen y llafnau |
| **Grid connection point:** | Llanelwy, Bodelwyddan |

Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

# Sut mae adborth wedi bod yn sail i'r prosiect

Mae'r adborth o'n hymgynghoriad cyhoeddus cyntaf ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2020, a gan reoleiddwyr yn cynnwys yr awdurdodau cynllunio lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi helpu i lywio'r prosiect hyd yma.

## Mae'r prif newidiadau'n cynnwys:

- Mae ardal yr aráe ar y môr wedi cael ei lleihau o ran maint (o 107 i 88 km2) i reoli effeithiau'r prosiect ar amwynder gweledol, morgludiant a mordwyo a mamaliaid morol.

- Mae uchafswm nifer y tyrbinau y byddem ni'n eu gosod wedi gostwng yn unol â hynny o 107 i 91.

- Mae llwybr y cebl ar y môr a ddewiswyd yn osgoi Constable Bank, banc tywod sy'n bwysig yn ecolegol i'r gorllewin o fferm wynt Gwastadeddau'r Rhyl.

- Mae'r lanfa wedi cael ei dewis o dri opsiwn a gyflwynwyd yn ein hymgynghoriad blaenorol yn niwedd 2020. Mae'r lanfa a ffafrir yn sicrhau bod llwybr y cebl ar y môr yn osgoi Constant Bank ac yn caniatáu llwybr cebl byrrach ar y tir.

- Mae'r llwybr y cebl ar y tir wedi cael ei ddewis o dri opsiwn yr ymgynghorwyd arnyn nhw'n flaenorol. Mae coridor 40-60m rydym ni'n ei ffafrio wedi cael ei nodi yn y coridor 100m gan ddefnyddio'r adborth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad.

- Mae parth yr is-orsaf ar y tir wedi cael ei ddewis o dri opsiwn yr ymgynghorwyd arnyn nhw'n flaenorol. Mae gan y parth lefel dda o sgrinio naturiol ac mae mewn lle da ar gyfer y cysylltiad ymlaen i Fodelwyddan.

Gyda'ch mewnbwn i'r **Holiadur Ymgynghori,** byddwn ni mewn sefyllfa i adolygu cynlluniau'r prosiect ymhellach eto.


Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

# Llwybr y cebl ar y môr

Bydd yr aráe ar y môr yn cael ei gysylltu â'r lan drwy gebl fydd yn cael ei osod ar wely'r môr ac oddi tano. Yn ein hymgynghoriad yn 2020, fe wnaethom ni gyflwyno tri opsiwn ar gyfer llwybr y cebl hwn. Gyda'r adborth a gafwyd gan randdeiliaid a rheoleiddwyr, rydyn ni wedi mireinio hyn i un llwybr cebl ar y môr sy'n cael ei ffafrio (fel sy'n cael ei ddangos yn wyrdd ar y map cysylltiedig).


Mae'r llwybr yn osgoi Constable Bank, banc tywod sy'n bwysig yn ecolegol i'r gorllewin o Fferm Wynt Gwastadeddau'r Rhyl. Rydym ni hefyd wedi cyflwyno parth ar gyfer 'seilwaith arall' (a ddangosir mewn piws ar y map cysylltiedig) lle gallwn ni osod mast meteorolegol (i fonitro amodau'r gwynt) ond dim tyrbinau.



# Glanfa

Yn ein hymgynghoriad yn 2020, fe wnaethom gyflwyno tri lleoliad ar gyfer y lanfa, sydd bellach wedi'u mireinio i un. Mae'r prosiect yn gofyn am adeiladu tyllau cysylltu ceblau trydan a fydd yn derbyn y ceblau o Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr. Bydd yr holl strwythurau newydd o dan y ddaear.


Rydyn ni'n chwilio am eich adborth ar y prif faterion i ni allu eu hystyried wrth fireinio ein dyluniad ar gyfer y lanfa. Rhannwch eich barn **yma**.



# Llwybr y cebl ar y tir

Mae Coridor y Ceblau Allforio ar y Tir (ECC ar y Tir) yn rhedeg o'r lanfa yn Nhraeth Ffrith, i'r dwyrain o'r Rhyl, i is-orsaf y prosiect ac ymlaen i is-orsaf y Grid Cenedlaethol ym Modelwyddan **(gweler y map cysylltiedig)**. Mae'n tua 100 metr o led, ac mae 'llwybr cebl sy'n cael ei ffafrio' culach wedi'i nodi y tu mewn iddo. Gyda'ch mewnbwn chi, rydym ni'n bwriadu mireinio'r ECC ar y Tir i led o rhwng 40 a 60 metr.

Oes gennych chi unrhyw sylwadau a allai ein helpu gyda'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y coridor ceblau ar y tir neu ddyluniad y lanfa? Rhannwch eich barn **yma**.




Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

# Yr is-orsaf ar y tir

Ger Parc Busnes Llanelwy, bydd angen adeiladu is-orsaf newydd, ffordd fynediad barhaol a gwaith cysylltiedig i dderbyn y ceblau trydan. Byddai angen i National Grid wneud gwaith adeiladu cysylltiedig hefyd. Mae'r map isod yn dangos y parth lle byddwn ni'n lleoli ein his-orsaf. Rydym ni hefyd yn ystyried y ffordd orau o gael mynediad at yr is-orsaf a lle i leoli compowndiau adeiladu dros dro a fydd yn cael eu defnyddio i hwyluso'r gwaith adeiladu.

Oes gennych chi unrhyw sylwadau a allai helpu ein proses gwneud penderfyniadau ar gyfer lleoliad yr is-orsaf ar y tir, neu ei seilwaith cysylltiedig. Rhannwch eich barn **yma**.



# Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweinio

Ein mapiau manwl a chynlluniau'r prosiect – ein prif ddogfennau ymgynghori



# Crynodeb Annhechnegol o'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol

Mae datblygu, cydsynio ac adeiladu fferm wynt ar y môr yn broses gymhleth, gyda llawer o ffactorau i'w hystyried a rhanddeiliaid i ymgynghori â nhw. Rydym ni'n gwerthfawrogi bod llawer o ddeunydd darllen yn cael ei gynhyrchu gan y broses hon.

Rydym wedi darparu Crynodeb Annhechnegol o'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol sy'n crynhoi ein holl waith, gan gynnwys yr holl bynciau ar y môr ac ar y tir a restrir ar banel yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Mae modd gweld y Grynodeb Annhechnegol **yma**.

Gellir darllen y Grynodeb Annhechnegol ar ei phen ei hun, neu ei ddefnyddio fel llwybr at yr wybodaeth fanylach sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol ei hun. Gobeithio y bydd o fudd i chi.



# Yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)

Mae Awel y Môr yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cael ei gynnal fel rhan o'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) o dan Ddeddf Cynllunio 2008, a hefyd fel rhan o'r cais am Drwydded Forol (ML) o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Ym mis Mehefin/Gorffennaf 2020, fe wnaethom ni gynnal ymarfer cwmpasu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol gyda'r Arolygiaeth Gynllunio, Cyfoeth Naturiol Cymru ac ymgyngoreion eraill a nodir yn y gyfraith (gan gynnwys ein 'Grwpiau Pwnc Arbennig'). Fel rhan o'r broses hon, cyhoeddodd yr Ymgynghoriaeth Gynllunio 'Farn Gwmpasu' sy'n nodi beth oedd angen i ni ei wneud i sicrhau bod Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cael ei gynnal sy'n bodloni disgwyliadau'r rheoleiddwyr perthnasol, ac sy'n sail i ddatblygu Fferm Wynt Ar y Môr, Awel y Môr.

Mae'r **Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol** a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn ddrafft o'r Datganiad Amgylcheddol a fydd yn adrodd ar broses yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac yn cael ei gyflwyno gyda'n ceisiadau cynllunio.

Mae'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (a'r Datganiad Amgylcheddol i ddilyn) yn edrych ar yr amgylchiadau presennol (neu'r 'gwaelodlin') ac yn modelu effeithiau tebygol y prosiect ar draws y meysydd canlynol. Mae hefyd yn nodi sut byddwn ni'n osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru'r effeithiau hynny lle bynnag y bo modd

## Amgylchedd ar y môr

- Amgylchedd ffisegol
- Prosesau ffisegol (gan gynnwys: lefelau dŵr; cerrynt; tonnau a gwyntoedd; gwaddodion a daeareg (gan gynnwys dosbarthiad gwaddodion gwely'r môr a chludiant gwaddodion); geomorffoleg gwely'r môr; a geomorffoleg arfordirol)
- Dŵr morol ac ansawdd gwaddodion
- Amgylchedd biolegol
- Ecoleg islanwol a rhynglanwol benthig
- Ecoleg pysgod a physgod cregyn
- Mamaliaid môr
- Adareg y môr
- Amgylchedd dynol
- Pysgodfeydd masnachol
- Llongau a mordwyo• Awyrennau milwrol a sifil
- Asesiad o'r môr, y dirwedd a'r effaith weledol• Archaeoleg forol
- Defnyddwyr a gweithgareddau morol eraill (gan gynnwys: ynni adnewyddadwy ar y môr; olew a nwy; dal a storio carbon; gorsafoedd pŵer (niwclear); ceblau a phibellau o dan y môr; carthu agregau; safleoedd gwaredu trwyddedig; gweithgareddau'r MoD; a physgota, gan gynnwys pysgotwyr siartredig)

## Amgylchedd ar y tir

- Ecoleg ddaearol a chadwraeth natur
- Archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol
- Sŵn a dirgryniad yn yr awyr
- Traffig a thrafnidiaeth
- Ansawdd aer
- Hydroleg, hydroddaeareg a pherygl o lifogydd
- Daeareg ac amodau'r ddaear
- Asesiad effaith weledol ac ar y tir
- Cymdeithasol-economaidd a thwristiaeth
- Iechyd y cyhoedd

# amserlen y prosiect

## Haf 2019

Wedi pasio Rheoliadau Cynefinoedd Lefel Cynllun Ystad y Goron Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn caniatáu i'r prosiect symud ymlaen i sicrhau Cytundeb Lesio

## Haf 2020

Cytundeb Lesio wedi'i lofnodi gydag Ystad y Goron, sy'n caniatáu i RWE ddechrau datblygu a cheisio cydsyniad ar gyfer y prosiect.

## Hydref 2020

Ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid, gan gynnwys ymgynghori anstatudol. Yr arolygon yn dechrau.

## 2021

Arolygon ar y tir/ar y môr a dylunio'r prosiect.
Ymgysylltu â'r awdurdodau cynllunio lleol ar y Datganiad Ymgynghori Cymunedol.
Ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid, gan gynnwys ymgynghori statudol. (31 Awst – 11 Hydref)

## 2022

Cyflwyno ceisiadau am Orchymyn Cydsyniad Datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio (Llywodraeth y DU) ac am Drwydded Forol i Cyfoeth Naturiol Cymru (Llywodraeth Cymru).

## 2023-24

Penderfyniadau'n cael eu gwneud ar gyfer y ddau gais: Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a Thrwydded Forol.

## 2030

Ar yr amod bod y prosiect yn cael y ddwy drwydded, disgwylir y gallai'r fferm wynt fod yn weithredol erbyn 2030.

# Y fferm wynt

Roedd yr ymgynghoriad yn 2020 yn cyflwyno uchafswm o 107 tyrbin gwynt. Mae hyn wedi gostwng i uchafswm o 91 tyrbin gwynt oherwydd gostyngiad ym maint ardal yr aráe mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid.

Bydd ceblau'n cysylltu'r tyrbinau â phlatfformau is-orsafoedd ar y môr ac yna'n allforio'r ynni adnewyddadwy i'r lan.


Mae angen rhywfaint o hyblygrwydd yn nyluniad pob fferm wynt ar y môr. Er enghraifft, mae tyrbinau gwynt yn gwella trwy'r adeg, felly dim ond ar ôl derbyn y caniatâd datblygu angenrheidiol y bydd yr union fodel yn cael ei ddewis. Yn unol â hynny, rydym wedi asesu nifer o newidynnau, gan greu 'amlen prosiect' y mae'n rhaid adeiladu'r Prosiect oddi mewn iddi.

Beth sy'n rhan o'r seilwaith ar y môr:

| Seilwaith | Cydrannau | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Arae<br>Y fferm wynt alltraeth | Generaduron Tyrbinau Gwynt | Mae Tyrbinau Gwynt yn trosi ynni gwynt yn drydan. Ymhlith y cydrannau allweddol mae llafn rotor, blychau gêr (mewn rhai achosion), newidyddion, electroneg pŵer ac offer rheoli. Uchafswm y llafn o'r darn uchaf: 332m. Uchafswm diamedr y rotor: 300mNifer y tyrbinau gwynt: 51 – 107. Po dalaf ydynt, po leiaf fydd eu hangen arnom |
| Arae | Llwyfan isbwerdai alltraeth (OSPs) | Isbwerdai alltraeth yw'r systemau sy'n casglu ac yn allforio'r pŵer a gynhyrchir gan dyrbinau gwynt drwy'r ceblau rhyng-arae. |
| Arae | Sylfeini | Bydd y tyrbinau gwynt, llwyfannau isbwerdai alltraeth a'r mast sy'n mesur y gwynt yn cael eu gosod yn barhaol yng ngwely'r môr gyda strwythurau sylfaen. |
| Arae | Ceblau rhyng-arae | Bydd ceblau'n cael eu claddu yn y môr i gysylltu'r tyrbinau â'r isbwerdai alltraeth, fel arfer gydag uned o geblau cangen. |
| Arae /<br>Llwybr Ceblau Allforio | Sgwrio a diogelu ceblau | Er mwyn diogelu gwely'r môr o amgylch y strwythurau sylfaen a diogelu'r ceblau rhag erydu, gellir gosod rhai creigiau a deunyddiau eraill ar wely'r môr er mwyn eu diogelu rhag y cerrynt a'r tonnau. |
| Llwybr cebl allforio ar y môr | Ceblau allforio | Bydd ceblau allforio yn cael eu claddu yng ngwely'r môr i gysylltu'r isbwerdai alltraeth â lleoliad y lanfa. Caiff ceblau eu cyfeirio gan osgoi rhwystrau mawr ar wely'r môr a lleihau colledion trydanol. |

Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

# Generadur tyrbin gwynt



# Swyddi Cynaliadwy

## creu cyfleoedd

Byddai Fferm Wynt ar y Môr Awel y Môr yn brosiect seilwaith sylweddol. Yn ogystal â chynhyrchu ynni glân, byddai Awel y Môr yn creu swyddi yn ystod y gwaith adeiladu a'r cyfnod cynhyrchu ynni, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn y gadwyn gyflenwi drwyddi draw.

Creodd ei chwaer brosiect, Gwynt y Môr (sydd yn weithredol ers 2015) dros 700 o swyddi yn ystod y cyfod adeiladu a gwariwyd dros £90 miliwn yng Nghymru. Ers bod yn weithredol, mae 100 o swyddi hirdymor sgiliedig wedi cael eu creu, ac mae'r fferm wynt fel arfer yn buddsoddi tua £8 miliwn yn economi Cymru bob blwyddyn.



Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

# Pecyn cymunedol

## cefnogi'r ardal leol

Mae gan RWE hanes hir o gefnogi'r cymunedau y mae'n gweithredu ynddynt. Wrth i brosiect Awel y Môr fynd rhagddo, byddwn ni'n gweithio gyda chymunedau i ddatblygu ein dull o gefnogi'r ardal leol.

Ar hyn o bryd, nid yw manylion unrhyw becyn budd cymunedol sy'n gysylltiedig ag Awel y Môr wedi cael eu cwblhau. Rydym ni'n bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater hwn yn gynnar yn 2022 a byddwn ni'n gwahodd pobl leol a grwpiau i helpu i siapio'r ffordd orau y gall y prosiect gefnogi'r gymuned.



# Cadwyn gyflenwi

## clwstwr Cadwyn Gyflenwi newyddsbon ar gyfer Gogledd Cymru

Fel rhan o gyflawni ymrwymiadau Bargen y Sector Gwynt ar y Môr, mae RWE Renewables bellach yn hyrwyddwr ar gyfer datblygu clwstwr cadwyn gyflenwi newydd sbon o'r enw The Offshore Energy Alliance (OEA). Mae'r clwstwr yn chwifio'r faner dros fusnesau lleol ar draws Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr, gan godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd sydd ar y gweill yn y rhanbarth, ar draws y DU a thu hwnt.

Mae'r clwstwr hefyd yn hybu gweithgarwch ym meysydd arloesi, hyfforddiant a sgiliau.

Fel clwstwr cadwyn gyflenwi newydd sbon, mae'r OEA yn gweithio'n galed i sicrhau ei fod wedi'i wreiddio yn y rhanbarth i ychwanegu'r budd lleol mwyaf. Cadwch lygad am wefan newydd OEA sydd ar y gweill.

Yn y cyfamser, i gael rhagor o wybodaeth ac i gofrestru ar gyfer yr wybodaeth ddiweddaraf dilynwch dudalen LinkedIn yr Offshore Energy Alliance drwy glicio yma:
**www.linkedin.com/company/the-offshore-energy-alliance**

### Cynlluniau Cadwyn Gyflenwi'r Prosiect


Yn rhan o broses ddatblygu'r prosiect, bydd angen i Awel y Môr wneud cais yn y blynyddoedd nesaf am gynllun Contract Gwahaniaeth (CfD). Dyma brif fecanwaith Llywodraeth y DU i gefnogi prosiectau cynhyrchu trydan carbon isel newydd. Yn rhan o'r cais am CfD, mae gofyn i'r prosiect gynhyrchu Cynllun Cadwyn Gyflenwi (SCP) sy'n cynnwys amrywiaeth o ymrwymiadau a fydd yn darparu rhagor o gymorth: i'r gadwyn gyflenwi a busnesau lleol, gweithgareddau arloesi, mentrau sgiliau a datblygiad isadeiledd.



Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

# Ynni Gwynt a Sut Mae Tyrbinau Gwynt yn Gweithio

## Cwestiynau Cwis



# Deunyddiau Addysgol am YnniAdnewyddadwy Nodiadau athro a gweithgareddau i:

## Gyfnod Allweddol 3/Cwricwlwm Rhagoriaeth Lefel 3 (11 – 14 oed)



# Camau nesaf...

Byddwn ni'n ystyried yr holl adborth a gyflwynir erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad ar 11 Hydref, a byddwn ni'n gwneud ein gorau i adolygu unrhyw gyflwyniadau hwyr. Byddwn ni'n adrodd ar hyn i gyd (gan gynnwys digwyddiad 2020) mewn Adroddiad Ymgynghori a fydd yn cael ei gyflwyno gyda'n ceisiadau am y cydsyniadau datblygu angenrheidiol. Bydd yr Adroddiad Ymgynghori'n nodi sut mae eich adborth wedi dylanwadu ar y prosiect, a bydd yn egluro lle nad ydym ni wedi gallu cydymffurfio ag unrhyw adborth.

Rydyn ni'n bwriadu cyflwyno ein ceisiadau ar gyfer y cydsyniadau datblygu angenrheidiol yn nechrau 2022. Nid ydym ni'n disgwyl ymgynghori eto cyn cyflwyno, ond nid yw hynny'n golygu diwedd ar gyfleoedd i chi gymryd rhan. Os caiff ein cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ei dderbyn i'w ystyried gan yr Arolygiaeth Gynllunio, byddwch yn gallu cofrestru fel 'parti â diddordeb' a chymryd rhan yn yr archwiliad cyhoeddus o'n cais. Bydd hyn yn cael ei hysbysebu ar yr amser priodol. Byddwch chi hefyd yn gallu cymryd rhan mewn ymgynghoriad ar ein cais am Drwydded Forol, a fydd yn cael ei gynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a fydd hefyd yn cael ei hysbysebu.

I gael gwybod am y digwyddiadau hyn a mwy, cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr **yma.**

I gael rhagor o wybodaeth am broses y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, ewch i wefan yr Arolygiaeth Gynllunio **yma.**

I gael rhagor o wybodaeth am broses y Trwyddedu Morol, ewch i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru **yma.**

Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

# Tyrbinau Uwch

## Mae tyrbinau gwynt ar y môr wedi datblygu

Ni fyddwn yn defnyddio’r tyrbinau gwynt a osodwyd ar safleoedd fel Gogledd Hoyle, Gwastadeddau'r Rhyl a Gwynt y Môr pan fyddwn yn adeiladu Awel y Môr. Mae tyrbinau'n mynd yn fwy o faint, ac yn fwy pwerus, ac mae hyn wedi lleihau costau gwynt ar y môr yn sylweddol.

Mae angen diogelu'r prosiect ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod ein cynigion yn ystyried y tyrbinau y disgwylir iddynt fod ar y farchnad pan fyddwn yn dechrau ar y gwaith adeiladu.

Mae tyrbinau mwy llawer mwy effeithiol ac effeithlon.

Maent yn gallu cwmpasu ardal ehangach ac yn gallu manteisio ar fwy o wynt, gan ehangu’r cyfnod o amser y gallant gynhyrchu trydan.

Gallai un cylchdro gan dyrbin 10 MW gynhyrchu ddigon o drydan i bweru tŷ cyffredin am dros.

**24 awrs**

Awel y Môr Offshore Wind Farm Ltd.
www.awelymor.cymru

Windmill Hill Business Park
Whitehill Way
Swindon SN5 6PB
Wiltshire SN5 6PB
Cofrestredig yn Lloegr a Chymru rhif. 12270928